    c) Proactive engagement and involvement with local community groups and partner organisations supporting and representing under-represented groups, including work with the Council's Community Development Officer and wider team, to promote the role of a Councillor with the 3rd sector and voluntary groups within the County Borough.
    d) The updating of the Council website to ensure that it displays relevant information, including details surrounding remuneration and support provisions available to assist any future candidate in standing for election.
    e) The taking forward of a Council video promoting the role of a Councillor and providing information surrounding support available to Elected Members
    f) Promotion of the role of a Councillor at Council Job and Career Fairs.
    g) A commitment to ensuring that all members and candidates complete the Welsh Government candidates' and councillors' survey distributed at election time.
    h) To take forward improved equality monitoring of Members

DRAFT

i) Working with Diversity Champions to encourage each political group to set ambitious targets for candidates from under-represented groups at the 2022 local elections
j) The development and promotion of new ways of working for members, including the provision of hybrid meeting opportunities and eLearning platforms which will assist and encourage all candidates and those from underrepresented groups to stand for office.

- Continue working towards the standards for member support and development set out in the *Wales Charter for Member Support and Development.*

- Continue to demonstrate a commitment to a duty of care for Councillors by:
  a) providing access to counselling services for all councillors through the Councils Occupational Health Service and Cari Wellbeing Service;
  b) Promoting the general open-door policy for Members to contact the Head of Democratic Services and Monitoring Officer for any concerns
  c) having regard for the safety and wellbeing of councillors whenever they are performing their role as councillors and ensuring that all Members are aware of the safety provisions in place for Members through the Council Business Unit in partnership with the Community Safety Partnership and South Wales Police;
  d) taking a zero-tolerance approach to bullying and harassment by members including such harassment through social networks, and to assist Members with the production of infographics to illustrate acceptable behaviour and flyers to provide to constituents advising them of how they can contact Members going forward.
  e) Providing training and learning opportunities to support Members in undertaking their role.
  f) Surveying Members annually on the support arrangements available to allow the Council to review and address any improvements that could be taken forward to further support Members in their role.

To continue to provide flexibility with the undertaking of Council Business by

- Continuing the ‘Annual Survey of Members’ to review the commencement time of Council Meetings, which is reported to the Annual General Meeting.
- Continuing to promote and support the hybrid meeting arrangements taken forward by the Council to allow Members and Officers flexibility in attending meetings physically at Council Offices or through the virtual meeting platform.
- Continuing the agreed practice of providing recess periods during school holidays to support councillors with caring or work commitments.
- Promoting the welsh language provision available to all Members at Council meetings
- Sufficient provision of ICT equipment and support to allow a Member to undertake their role effectively.

- Encourage all members take up the allowances and salaries to which they are entitled, particularly any reimbursement for costs of care, so that all members

DRAFT

receive fair remuneration for their work and that the role of member is not limited to those who can afford it.

- Encourage Members to discuss reasonable adjustments to assist them in undertaking their role.
- Encourage the take up of provisions available to Members in respect of broadband allowances and mobile phone provision to assist Members in undertaking their role.

********

DRAFT

tudalen wag

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

COUNCIL

15th DECEMBER 2021

# ANNUAL REPORTS 2020/21

**REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR, DEMOCRATIC SERVICES AND COMMUNICATION.**

## 1. PURPOSE OF THE REPORT

1.1 The purpose of the report is to provide Council with the Annual Reports of the following Committees for the Municipal Year 2020/21:
- Democratic Services Committee
- Audit Committee

## 2. RECOMMENDATIONS

It is recommended that the Council:

2.1 Note the Annual Reports for the Democratic Services Committee and Audit Committee (which are attached to the report at Appendix 1 and 2 respectively).

## 3. REASONS FOR RECOMMENDATIONS

3.1 The need to provide Council with an update in respect of the work of the Committees during the Municipal Year 2020/21.

## 4. BACKGROUND

4.1 **Democratic Services Committee**

4.2 The Annual Report of the Democratic Services Committee, provides a summary of the role and work of the Committee undertaken in the 2020/2021 Municipal Year.

4.3 The draft Annual report was presented to and endorsed by the Democratic Services Committee at its meeting held on the 6th September 2021

4.4 **Audit Committee**

4.4 The draft Annual Report of the Audit Committee was presented to the then Governance & Audit Committee on the 12th July 2021, providing a summary of the work undertaken over the 2020/21 Municipal Year.

4.5 The Governance & Audit Committee approved the annual report and its presentation to Full Council.

4.6 The report is attached as Appendix 2 to the report.

## 5. EQUALITY AND DIVERSITY IMPLICATIONS

5.1 An Equality Impact Assessment is not needed because the contents of the reports are for information purposes only.

## 6. CONSULTATION

6.1 There is no consultation required for this report. Consultation on the reports was undertaken at each of the Committee meetings referenced.

## 7. FINANCIAL IMPLICATION(S)

7.1 There are no financial implications aligned to this report.

## 8. LEGAL IMPLICATIONS *OR* LEGISLATION CONSIDERED

8.1 The report has been prepared in accordance with Rhondda Cynon Taf County Borough Council's constitution.

## 9. LINKS TO THE COUNCILS CORPORATE PLAN / OTHER CORPORATE PRIORITIES/ FUTURE GENERATIONS – SUSTAINABLE DEVELOPMENT.

9.1 The work of all Committees of the Council encompasses all of the Councils priorities and provision of an Annual report allows the Committee to highlight the work undertaken and items for future consideration in line with the corporate priorities.

9.2 The work of the Committees also takes forward the principals and wellbeing goals of the Well-being and Future Generations Act, linked to each of the Committees' Terms of Reference.

## 10. CONCLUSION

10.1 The Annual reports outline the work of the Committees undertaken in the 2020/2021 Municipal Year and have been approved by each Committee for presentation to Full Council.

tudalen wag

# Adroddiad Blynyddol 2020-21
# **Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys


Rhagair

Aelodaeth

Cymorth ac Adnoddau i Aelodau

Hybrid / Gweddarlledu

Porth yr Aelodau

Hyfforddiant i Aelodau

Lles yr Aelodau

Y Gweithgor Amrywiaeth

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW)

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Edrych i'r Dyfodol

Atodiad - Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd - Cylch Gorchwyl



Y Cyng M. Webber

# Is-gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

**Mae hon wedi bod yn flwyddyn ddigynsail arall wrth i'r Pwyllgor fynd i'r afael â'i gyfarfodydd rhithwir o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae'r Pwyllgor bob amser wedi bod yn awyddus i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio, er enghraifft, mae wedi hyrwyddo gweddarlledu dros y 2 flynedd ddiwethaf. Rydw i'n falch o weld bod Aelodau'r Pwyllgor, fel pob Aelod o'r Cyngor, wedi ymgymryd â'r dull newydd hwn.**

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Pwyllgor, er ei bod hi'n flwyddyn fyrrach na'r arfer, ac roeddwn i'n falch o fod yn rhan o'r gwaith rhagorol a gyflwynwyd gan Weithgor Amrywiaeth y Pwyllgor. A minnau'n Aelod sy'n gyfrifol am Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, bydd gwaith fy nghydweithwyr nid yn unig o fudd i'r Cyngor wrth helpu i hyrwyddo'r agenda ddemocratiaeth, bydd hefyd yn creu democratiaeth amrywiol sy'n adlewyrchu trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'r gweithgor wedi darparu 16 o argymhellion i'r Cyngor eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod byr cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol, ac fel Pwyllgor byddwn ni'n parhau i gefnogi gwaith a chanfyddiadau'r Gweithgor. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r materion hyn y tu hwnt i reolaeth y Cyngor a bod angen iddyn nhw gael eu cefnogi gan bleidiau gwleidyddol.

Cafodd yr holl Aelodau fedydd tân o ran ymgyfarwyddo â chyfarfodydd ar-lein.Serch hynny, rwy'n falch o ddweud bod pawb wedi bod yn gefnogol iawn o'r ymdrech yma. Mae holl aelodau'r pwyllgor wedi cofnodi eu diolch am gymorth Uned Busnes y Cyngor a'r gwasanaeth TGCh yn ystod y cyfnod yma, a wnaeth alluogi pob aelod i gyflawni ei rôl. Bydd y gefnogaeth yma'n chwarae rhan allweddol uwnaith eto wrth i ni gychwyn ar y camau nesaf mewn democratiaeth ddigidol trwy gynnal cyfarfodydd hybrid a gweddarlledu. Mae hwn yn gyfle cyffrous ac mae'r Pwyllgor yn aros yn eiddgar i weld y drefn newydd ar waith yn dilyn ein hymdrechion i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â rhoi'r system newydd ar waith, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gynnal ein cyfarfod cyntaf o'r fath yn ystod Blwyddyn y Cyngor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn effro i'r oblygiadau o ran adnoddau sy'n dod yn sgil cyfarfodydd o'r fath, a bydd yn eu trafod ochr yn ochr â'r adroddiad digonolrwydd adnoddau nesaf a gaiff ei ddwyn gerbron y Pwyllgor yn ystod Blwyddyn y Cyngor.

Nid y pandemig yw'r unig reswm y bu eleni'n flwyddyn ddigynsail. Mae hefyd yn nodedig yn sgil ymddiswyddiad cyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Diamond. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r cyn Gynghorydd Diamond am ei ofal broffesiynol o'r Pwyllgor a dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo. Hoffwn hefyd ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth ddigonol i'w Aelodau, wrth i ni edrych at y dyfodol a'r gefnogaeth bosibl mae modd i ni ei darparu i ymgeiswyr newydd cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol.

Hoffwn hefyd longyfarch ein Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Lewis Hooper, ac edrychaf ymlaen at weithio gydag ef dros y flwyddyn newydd yma.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber**
**Is-gadeirydd.**

# Aelodaeth - Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd


Y Cyng L. M. Adams


Y Cyng J. Bonetto


Y Cyng J. Brencher


Y Cyng G. Caple



Y Cyng M. Diamond


Y Cyng J. Edwards


Y Cyng H. Fychan


Y Cyng G. Jones


Y Cyng K. Morgan


Y Cyng S. Powderhill


Y Cyng S. Rees


Y Cyng E. Stephens


Y Cyng L. Walker


Y Cyng M. Webber
(Is-gadeirydd)

# Cymorth ac Adnoddau i Aelodau

Ym mis Tachwedd 2020, yn unol â'r Mesur a chylch gorchwyl cytunedig y Pwyllgor, trafododd y Pwyllgor ei adroddiad blynyddol mewn perthynas â Digonolrwydd Adnoddau. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dros adolygu'r ddarpariaeth o ran staff, swyddfeydd/cyfleusterau, ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn gofalu bod y cyfan yn ddigonol gyda golwg ar gyfrifoldebau'r swydd Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, yn ei dro, yn gyfrifol am wneud argymhellion i'r Pwyllgor er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniadau o'r fath.

Yn ei adroddiad, trafododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y cyllid sydd wedi'i sicrhau mewn perthynas â'r swyddi i raddedigion:

- **Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau**
- **Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd ac Ymgysylltu**

Yn ogystal â hynny, cafodd cyllid ei sicrhau ar gyfer swydd 'Uwch Swyddog Democrataidd a Materion Craffu' ychwanegol. Mae'r swydd wedi atgyfnerthu'r gefnogaeth a'r arbenigedd yn yr Uned gan ddatblygu dull craffu ar y cyd y Cyngor a dulliau craffu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn ogystal ag atgyfnerthu Siarter y Gymuned, y cytunwyd arni yn y Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned.

Oherwydd y pandemig, cafodd y Swyddog Cymorth i Aelodau ei roi ar secondiad gyda'r garfan 'Profi, Olrhain, Diogelu', er mwyn helpu'r Cyngor i ymateb i Covid-19. Secondiad dros dro am 3 mis oedd hwn ac mae'r swyddog bellach yn ôl yn ei swydd ac yn parhau i gefnogi'r Aelodau. Cafodd trefniadau cyflenwi trwy'r uned weinyddol Gyfreithiol eu rhoi ar waith er mwyn helpu Uned Busnes y Cyngor i ddarparu cymorth i'r Aelodau yn y cyfamser.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Pwyllgor eisoes yn effro i'r goblygiadau posibl o ran adnoddau Uned Busnes y Cyngor wrth weinyddu a chefnogi'r trefniadau gweddarlledu, a bydd angen trafod y mater yma'n fanwl pan fydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'i garfan am y gefnogaeth barhaus maen nhw'n ei rhoi i'r Aelodau, yn ogystal â'r gefnogaeth o ran TGCh a'r cymorth gan swyddogion di-ri eraill, sy'n helpu'r Aelodau i rannu a chasglu gwybodaeth er mwyn ymgymryd â'n gwaith a chefnogi pobl RhCT.

# Hybrid / Gweddarlledu

Yng Nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 9 Ionawr 2020, cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen â newidiadau i'r cyfleusterau yn Siambr y Cyngor trwy gaffael offer i hwyluso gweddarlledu a helpu i gynnal cyfarfodydd hybrid. Ers hynny, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i roi trefniadau ar waith ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor, fel bod modd i'r cyhoedd sydd ddim yn gallu teithio i'r Siambr weld a chlywed yr hyn sy'n mynd rhagddo. Dylai recordiadau o gyfarfodydd hefyd fod ar gael i'r cyhoedd am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod.

Mae nifer o fuddion ynghlwm wrth weddarlledu, sy'n cynnwys:

- Dangos enghreifftiau cadarnhaol o atebolrwydd a thryloywder;
- Annog ymgysylltu a thrafodaeth, trwy greu rhagor o gyfleoedd i'r cyhoedd ymwneud â chyfarfodydd;
- Cywirdeb o ran cofnodi cyfarfodydd gan gynnwys cofnodi penderfyniadau, pleidleisiau a phresenoldeb;
- Y cyfle i godi proffil gwaith y Cynghorwyr, a'r trafodaethau y tu ôl i benderfyniadau'r Cyngor a'i bwyllgorau.
- Mae'n cefnogi ein dulliau di-bapur o gynnal cyfarfodydd gan fod rhai cyfleusterau yn siambr y Cyngor ar hyn o bryd yn rhwystro hyn.

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi derbyn nifer o ddiweddariadau mewn perthynas â datblygu a gweithredu'r offer gweddarlledu, sydd wedi'i oedi'n sylweddol oherwydd y pandemig Covid.

Gyda chytundeb y Pwyllgor, ac unwaith iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor, bydd y gwaith o gyflwyno gweddarlledu byw yn digwydd fesul cam er mwyn rhoi cyfle i bawb ymgyfarwyddo â'r system yn eu tro. Y bwriad yw defnyddio'r un dull graddol a ddefnyddion ni ar gyfer cyflwyno cyfarfodydd ar-lein yn ystod haf 2020, a bydd cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael eu blaenoriaethu.

Wedyn, yn ystod y cam nesaf, bydd Pwyllgorau Craffu thematig yn dechrau cynnal cyfarfodydd hybrid fesul un, gan ddilyn y drefn yn y calendr. Penllanw'r gwaith yma fydd cyflwyno cyfarfodydd y Cyngor llawn ar ffurf hybrid. Bydd y dechnoleg yma'n fodd o adeiladu ar y cyfleoedd a ddarparwyd drwy'r cyfarfodydd Zoom, ac yn ein galluogi i rannu recordiadau o gyfarfodydd ar wefan y Cyngor.  Mae'n bwysig ein bod ni'n dal ati i fod yn hyblyg o ran anghenion pob pwyllgor penodol a'r galw am gyfarfod wyneb yn wyneb, ar ffurf hybrid neu ar-lein. Bydd hyn yn ein helpu ni i fanteisio i'r eithaf ar y gwaith cadarnhaol sydd wedi mynd rhagddo dros y 12 mis diwethaf.

Bydd angen llunio rhaglen lawn o hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau dros yr wythnosau nesaf er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw ymgyfarwyddo â'r dechnoleg yma. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai, cymeradwyodd yr Aelodau argymhellion Pwyllgor y Cyfansoddiad mewn perthynas â newidiadau i Reolau Gweithdrefn y Cyngor, a gafodd eu haddasu at ddiben cynnal cyfarfodydd hybrid.  Yn ogystal â hynny, oherwydd y canllawiau pellhau cymdeithasol, cafodd canllawiau ar fesurau diogelwch o ran Covid eu llunio i sicrhau diogelwch Aelodau a Swyddogion sy'n dewis dod i gyfarfod hybrid yn Siambr y Cyngor.

# Hybrid / Gweddarlledu

Yn ogystal â chyflwyno gweddarlledu, mae Siambr y Cyngor hefyd wedi cael ei newid yn sylweddol i sicrhau hygyrchedd a gwella'r amgylchedd democrataidd. Mae'r offer gweddarlledu newydd yn gwella'r sain yn y Siambr, bydd y sgriniau yn ei gwneud hi'n haws i'r Aelodau gymryd rhan yn y broses ac mae'r dodrefn newydd yn bodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae'r palmant y tu allan i Siambr y Cyngor hefyd wedi'i ostwng er mwyn galluogi hygyrchedd. Mae'r materion hyn wedi'u nodi trwy'r Gweithgor Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Er mwyn gwella'r cyfleusterau cyfieithu a ddarperir yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor ymhellach, mae bwth cyfieithu integredig bellach wedi'i osod yn y Siambr, a fydd o fudd i aelodau carfan Gwasanaethau'r Gymraeg wrth iddyn nhw gyflawni'r rôl hanfodol yma a gwella amrywiaeth o ran y broses ddemocrataidd. Mae fideo sy'n esbonio'r drefn newydd yn y Siambr wedi'i greu a'i rannu gyda'r Aelodau.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James, gyfleoedd cyllido gwerth £500,000 i gefnogi democratiaeth ddigidol, mater sy'n ofynnol er mwyn sicrhau llawer o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), 2021. Cyflwynodd Cyngor RhCT 3 chais i'r gronfa ac roedd yn llwyddiannus gyda phob un o'r cynigion i atgyfnerthu'r broses ddemocrataidd o fewn RhCT ymhellach:

- Ehangu'r seilwaith gweddarlledu (Cais 1)
- Gwella Porth yr Aelodau a'r apiau pleidleisio (Cais 2)
- Fframwaith er mwyn helpu Cynghorau Tref a Chymuned i weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (Cais 3).

Yn ystod y flwyddyn, cefnogodd Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y rhesymeg y dylid parhau i gynnal cyfarfodydd llai ar-lein, gan eu bod nhw eisoes yn cael eu cynnal yn y fath fodd. Roedd y rheswm dros gynnig o'r fath yn sgil trafodaeth am:

- Hyd tebygol y cyfarfodydd - trafod cynnwys eitem yr agenda a defnyddio amser Cynghorwyr a Swyddogion yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion o ran teithio;
- Hyrwyddo amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd ar-lein, a thrwy hynny, denu rhagor o bobl sy'n gweithio a rhieni ifainc
- Helpu i gefnogi ymdrechion y Cyngor i leihau carbon drwy leihau teithiau a chostau teithio.

Cytunodd yr aelodau y dylai nifer o gyfarfodydd barhau i gael eu cynnal ar-lein, gyda'r hyblygrwydd priodol yn cael ei ddarparu i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chadeirydd cyfrifol y Pwyllgor o ran penderfynu a ddylid cynnull cyfarfod ar Zoom, yn hybrid neu wyneb yn wyneb. Dylai hyn gael ei bennu yn ôl natur y busnes sy'n cael ei drafod.

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud cynnydd arbennig o ran trefniadau gweddarlledu o fewn RhCT, er gwaethaf yr oedi a welwyd oherwydd pandemig Covid. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gadarnhaol i gychwyn ei rownd gyntaf o gyfarfodydd arddangos ar ddechrau Blwyddyn y Cyngor, gyda'r bwriad o gynnal ei gyfarfod cyntaf wedi'i recordio o'r Cabinet ym mis Gorffennaf. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r dull hybrid yn agos ac yn adolygu'r trefniadau yn ôl yr angen i sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar waith i Aelodau a'r cyhoedd gael mynediad at gyfarfodydd yn y modd newydd yma. Bydd y Pwyllgor hefyd yn monitro'r gwaith datblygu sydd i'w wneud yn Ystafell Bwyllgor 1, fel bod modd cynnal cyfarfodydd hybrid yno, gan fod ystafelloedd pwyllgor llai yn aml yn fwy addas ar gyfer rhywfaint o waith y pwyllgorau llai.

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, fel nifer o bwyllgorau eraill, wedi gweld nifer o fuddiannau yn dilyn cyflwyno cyfarfodydd ar-lein, ac yn croesawu'r hyblygrwydd y mae'r cyfarfodydd hybrid yn ei gynnig i Aelodau a swyddogion, er mwyn diwallu eu hanghenion.

# Porth yr Aelodau

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr Aelodau gyflwyniad i Borth yr Aelodau, sef cyfleuster pwrpasol a fydd yn eu helpu i gyflawni eu gwaith drwy gynnig hyblygrwydd a rhagor o fynediad at adnoddau.  Ar hyn o bryd mae'r Porth yn caniatáu i'r Aelodau gyflwyno cwestiynau i'r Cyngor, cyflwyno ffurflen 'Galw i Mewn' mewn perthynas â Phenderfyniad Allweddol a llenwi ffurflenni Datgan Buddiant sy'n ymwneud â chyfarfod y maen nhw wedi bod yn bresennol ynddo.  Mae cyfle hefyd i gael mynediad at ddeunyddiau E-ddysgu a dogfennau gwybodaeth allweddol, a allai fod yn ddefnyddiol i Aelodau wrth gyflawni eu rôl.

Mae'r Porth yn system sy'n dal i ddatblygu, a'r bwriad yw y bydd y system, ymhen amser, yn darparu gwybodaeth ystadegol, a luniwyd o system adrodd cwsmeriaid y Cyngor ('CRM'). Bydd gwybodaeth ynglŷn â pha faterion sy'n cael eu riportio, fel baw cŵn neu dyllau yn y ffordd, yn cael eu casglu fesul ward, ochr yn ochr â gwybodaeth am sut y datryswyd y cwynion yma. Bydd y cyfleuster newydd hefyd yn darparu gwybodaeth am y busnes diweddaraf mae'r Cyngor yn ei drafod a materion fel ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â wardiau etholiadol yr aelodau hynny. Mae'r modiwlau E-Ddysgu cyfredol sydd ar gael ar y Porth yn eu ffurf sylfaenol ac mae gwaith partneriaeth rhwng Uned Busnes y Cyngor a swyddogion TGCh yn parhau er mwyn datblygu'r system. Bydd hyn yn galluogi'r Aelodau i fanteisio i'r eithaf ar y modiwlau e-ddysgu a rhoi tystiolaeth o'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu.

Oherwydd cyfranogiad y Pwyllgor yn natblygiad y Porth, mae'n addas mai Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fydd yn cynnal prawf o'r system ac yn rhoi adborth arno.  Bydd yr adborth yma'n sicrhau bod y system yn cael ei datblygu gydag anghenion a gofynion yr Aelodau mewn golwg, gan mai'r gobaith yw y bydd pob aelod yn ei ddefnyddio i gyrchu gwybodaeth/riportio problemau a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

# Hyfforddiant i Aelodau

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am y cyfleoedd hyfforddi a datblygu a ddarperir i Aelodau gan Uned Busnes y Cyngor ac mae'n derbyn adroddiadau am hyn fel y bo'n briodol. Cyflwynwyd Adroddiad mewn perthynas â hyfforddiant i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, gan roi diweddariad am yr hyfforddiant a gwblhawyd yn dilyn yr Adolygiadau Datblygiad Personol a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019-2020 a'r hyfforddiant i'w ddatblygu yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020-2021.

Oherwydd pandemig Covid, gohiriwyd hyfforddiant a chyfarfodydd y Cyngor. Yn ystod y cyfnod yma, bu Uned Busnes y Cyngor yn gweithio gyda'r Aelodau a swyddogion TGCh i sicrhau bod gan Aelodau'r dyfeisiau cywir i'w galluogi i gyflawni eu rolau a chefnogi eu hetholwyr ar adeg anodd ac ansicr iawn. Cynigiwyd hyfforddiant ar-lein unigol i'r holl Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig trwy Uned Busnes y Cyngor. Roedd hyfforddiant o'r fath yn caniatáu i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau ar-lein. Mae aelodau'r Cyngor wedi canmol y gefnogaeth a roddwyd iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma wrth i'r Cyngor weithio trwy'r opsiynau gorau i Aelodau ac ymgymryd â materion i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n ddidrafferth. Roedd gweithio yn y dull newydd yma yn newid sylweddol i'r Aelodau a hoffai'r Pwyllgor gofnodi ei ddiolch iddyn nhw am fod mor barod i addasu wrth ymgymryd â'r cyfarfodydd ac ymgysylltu ag etholwyr, er diogelwch pawb.

Gan fod Aelodau a Swyddogion bellach wedi ymgyfarwyddo â gweithio ar-lein, mae'r Pennaeth Datblygu'r Gyfundrefn wedi ailgydio yn y broses Adolygiadau Datblygu Personol (PDR) a chysylltwyd â phob Arweinydd Grŵp ac Aelod Annibynnol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r broses hon. Ar ôl cwblhau'r adolygiadau, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i drafod sut y bydd anghenion hyfforddi o'r fath yn cael eu diwallu. Mae'r cyfarfodydd ar-lein yn golygu bod rhagor o Aelodau yn cymryd rhan mewn hyfforddiant, ac felly rydyn ni wedi ailafael yn y sesiynau hyfforddiant cyn-gyngor, gyda sesiwn hyfforddi mewn perthynas â chynllun Cynnal a Chadw Gaeaf y Cyngor ym mis Tachwedd a'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ionawr gyda hyfforddiant Diogelu ar y gweill ar gyfer mis Mehefin. Nodwyd ffigurau presenoldeb gwell o gymharu â'r presenoldeb yn Siambr y Cyngor. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno y bydd nifer o raglenni hyfforddi eraill yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr holl Aelodau gan gynnwys Iechyd a Lles Meddwl, Rhagfarn Anymwybodol, rhannu gwybodaeth cyn ymddeol a chynllunio ar gyfer argyfwng. Bydd y sesiynau yma'n debyg o gael eu cynnal ar nosweithiau annibynnol yng nghalendr y Pwyllgor i gynyddu presenoldeb a lle bo hynny'n briodol, bydd recordiadau o hyfforddiant o'r fath yn cael eu rhannu ar y Porth i Aelodau er mwyn cyfeirio atyn nhw yn y dyfodol.

Yn ystod mis Ionawr 2021 cynhaliwyd holiadur gydag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cyfetholedig er mwyn helpu i lywio rhaglen ddatblygu ar gyfer y Pwyllgor. Mae'r swyddogion yn defnyddio canlyniadau'r arolwg i gyflwyno rhaglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer y Pwyllgor a fydd yn helpu i arfogi Aelodau i gyflawni eu rolau ar y Pwyllgor.

Cydnabuwyd bod y Cyngor yn darparu Rhaglen Sefydlu fanwl a thrylwyr i'r Aelodau, a chyda'r Etholiadau Llywodraeth Leol yn digwydd yn 2022, bydd angen cychwyn ar y gwaith o sicrhau bod y rhaglen sefydlu yn dal i fod yn 'Addas at Ddiben' i ganiatáu i Aelodau sydd newydd eu hethol cael cefnogaeth o'r cychwyn cyntaf.

Yn dilyn y ddau isetholiad ym mis Mai, mae Uned Busnes y Cyngor eisoes wedi adolygu ei becyn gwybodaeth o ran sefydlu ac wedi ymgymryd ag ystod o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer yr Aelodau newydd, a fydd yn cynorthwyo gyda'r adolygiad o Raglen Sefydlu Aelodau'r Cyngor. Bydd angen ystyried sut y mae sesiynau sefydlu Aelodau yn cael eu dwyn ymlaen yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol, gan edrych ar ffyrdd newydd o weithio gyda llwyfannau ar-lein (fel y gwelwyd yn ddiweddar yn y Senedd gyda Sesiynau Sefydlu Aelodau ar-lein) a'r angen i fod yn ystyriol o unrhyw gyfyngiadau cofleidiol posibl a allai fod ar waith o hyd. Bydd manylion y rhaglen sefydlu yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod Blwyddyn nesaf y Cyngor.

# Lles yr Aelodau

Mae lles ac iechyd meddwl yr Aelodau yn hanfodol bwysig ac mae angen i'r Aelodau fod yn effro i'r gefnogaeth sydd ar gael os ydyn nhw am ddefnyddio gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor.

Er bod presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn dod â nifer o fuddion i Aelodau, a mwy o hyblygrwydd gyda chydbwysedd gwaith/bywyd, mae hefyd wedi creu nifer o oblygiadau anfwriadol, er enghraifft, peri i rai Aelodau deimlo'n ynysig. Roedd yn amlwg bod yr Aelodau'n gweld eisiau'r cyfleoedd am sgyrsiau anffurfiol cyn y cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa ac yn dilyn cefnogaeth gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cynhaliodd Uned Busnes y Cyngor nifer o 'foreau coffi ar-lein' i'r Aelodau. Rhoddodd sesiynau o'r fath gyfle i'r Aelodau ddod at ei gilydd, sgwrsio a rhannu profiadau, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn rhoi hwb i les yr Aelodau yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r sesiynau wedi'u cynnal ar wahanol ddiwrnodau ac amseroedd o'r wythnos i geisio rhoi cyfle i'r holl Aelodau gymryd rhan. Maen nhw hefyd yn gyfle i rannu diweddariadau anffurfiol ac mae nifer o bethau cadarnhaol wedi deillio o sesiynau o'r fath, yn ogystal â'r cyfle amlwg i gefnogi Lles yr Aelodau:

- Trafododd yr Aelodau bod cynnydd wedi bod yn nifer y galwadau ffôn niwsans a diwahoddiad yn ystod y cyfyngiadau symud - cafodd taflen wybodaeth ei darparu er mwyn helpu'r Aelodau i ymdrin â galwadau o'r fath.
- Cyfryngau Cymdeithasol - Trafododd yr Aelodau y defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol yn ystod y pandemig a cheisio cymorth o ran y ffordd orau i ddelio ag ymholiadau ar gyfryngau cymdeithasol. Cafodd nifer o ffeithluniau eu rhannu gyda'r Aelodau er mwyn helpu i gyfeirio trigolion at rai o wasanaethau allweddol y Cyngor. Yn ogystal â hynny,cafodd dolenni i rai ffeithluniau eu darparu er mwyn helpu'r Aelodau i roi cymorth i drigolion ar-lein/ar gyfryngau cymdeithasol.
- Yn dilyn hyn, rhoddodd Swyddog o garfan cyfathrebu'r Cyngor gyflwyniad i'r Aelodau ar enghreifftiau o arfer da o ran y cyfryngau cymdeithasol.
- Newidiadau i Wefan y Cyngor - Yn y sesiwn goffi ddiwethaf, cafodd yr Aelodau drosolwg o rai o'r newidiadau i wefan y Cyngor a thudalennau Pwyllgor y Cyngor oherwydd yr angen i ddefnyddio system Modern Gov i gysylltu â gwefan y Cyngor i hwyluso'r gweddarlledu a recordiadau o'r Cyngor yn y dyfodol. Roedd hwn yn gyfle nad fyddai modd i'r holl Aelodau fanteisio arno fel arfer, a chafwyd ymateb da.
- Porth yr Aelodau - Cafodd yr Aelodau a oedd yn bresennol yn y sesiwn goffi ddiwethaf hefyd gipolwg ar Borth yr Aelodau - dim ond Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd sydd wedi cael budd o hyn yn y gorffennol. Cafodd hyn groeso mawr gyda nifer o Aelodau yn gofyn am gael eu cynnwys yn y cynllun peilot ynghyd ag Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Y bwriad yw parhau â'r ddarpariaeth yma o gefnogaeth i sicrhau lles yr Aelodau.

# Y Gweithgor Amrywiaeth

Mae amrywiaeth o fewn Llywodraeth Leol yn ymwneud â chreu amgylchedd cynhwysol, derbyn gwahaniaethau pob unigolyn, galluogi pob Cynghorydd i gyflawni ei lawn botensial ac, o ganlyniad, caniatáu i wasanaethau'r Cyngor helpu ein trigolion yn y modd gorau posibl. Os ydych chi'n gwerthfawrogi gwahaniaethau pob unigolyn, waeth beth yw eu barn wleidyddol, rhyw, oedran, cefndir ethnig, anabledd neu hunaniaeth rywiol yna rydych chi'n caniatáu i bob unigolyn gyfrannu ei brofiadau unigryw at y Cyngor - mae modd i hyn gael effaith gadarnhaol dros ben ar waith Cyngor a'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Po fwyaf cynrychioliadol yw ein Cynghorwyr, y gorau oll fydd eu dealltwriaeth anghenion y gymuned leol, sy'n eu rhoi mewn gwell sefyllfa i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor, ffurfiodd y Pwyllgor weithgor, a hynny yn dilyn datganiad y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â 'cham dau o'r rhaglen Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth' i edrych ar yr agenda amrywiaeth o fewn democratiaeth ac i weld pa gamau gweithredu mae modd eu rhoi ar waith i wneud RhCT yn amgylchedd democrataidd mwy amrywiol. Mae gwaith y gweithgor wedi mynd rhagddo'n gyflym ac eisoes mae gweithredoedd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n ceisio bwrw ymlaen â'r agenda amrywiaeth a'r argymhellion diweddar yn adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Cyngor.

Bydd gwaith y grŵp yn parhau tan Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 wrth i'r Aelodau weithio i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni popeth o fewn ei allu i gefnogi'r agenda amrywiaeth a chreu proffil democrataidd mwy amrywiol. Serch hynny, nodir bod llawer o bethau y tu hwnt i'w rheolaeth a bydd angen bwrw ymlaen â gwaith gyda phleidiau gwleidyddol i helpu i wthio'r agenda yn ei blaen.

Rhaid gwerthfawrogi bod ceisio sicrhau diwylliant amrywiol yn her aruthrol ac mae'r gweithgor eisoes wedi nodi rhwystrau posibl a allai beri i'r cyhoedd beidio â sefyll mewn etholiad o fewn cyfnod byr. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw rwystrau a nodir yn cael eu dileu a'n bod ni'n dathlu a hyrwyddo'r profiadau gwerth chweil sydd ynghlwm wrth ddod yn Gynghorydd. Mae'r Gweithgor wedi nodi pwysigrwydd dangos hyblygrwydd y Cyngor i ganiatáu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a fydd yn cael ei wella ymhellach trwy'r cyfarfodydd hybrid. Mae angen i'r Cyngor hyrwyddo'r gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i Aelodau Etholedig a'r cyfleoedd hyfforddi a'r gefnogaeth a ddarperir fel bod unrhyw ddarpar ymgeisydd yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Bydd ymgysylltu â chymunedau a grwpiau i'w haddysgu, a hyrwyddo'r broses ddemocrataidd er mwyn denu trigolion a allai gael eu sbarduno i fod yn Gynghorydd, hefyd yn rhan hanfodol o'r gwaith sydd ei angen.

Cydnabu'r Gweithgor fod Cynghorau Tref a Chymuned yn darparu cysylltiad hanfodol i gymunedau wrth wneud penderfyniadau, a nodwyd yr angen i weithio gyda'n cydweithwyr yn y Cynghorau Cymuned a Thref i ymgysylltu â darpar ymgeiswyr. Felly roedd hi'n bwysig bod cynrychiolwyr Cyngor Cymuned yn cael eu cynnwys yn ein haelodaeth.

# Y Gweithgor Amrywiaeth

Roedd Cylch Gorchwyl y Gweithgor hefyd yn cynnwys ymgysylltu â phobl ifanc 16-17 oed o ran democratiaeth llywodraeth leol, cyn Etholiadau'r Senedd. Ystyriodd y gweithgor ymgyrchoedd gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, neu YEPS, (a ddatblygwyd gan bobl ifanc) ac ymgyrch ymwybyddiaeth y Cyngor ei hun i ymgysylltu â'r sawl sy'n pleidleisio am y tro cyntaf. Oherwydd y pandemig Covid 19 ataliwyd llawer o'r cynlluniau i ymgysylltu ag ysgolion yn sgîl y cyfyngiadau symud a'r gofynion dysgu gartref, yn ogystal â'r ffocws ar addysg pan ailagorodd yr ysgolion. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cyfleoedd hyn pan fo hynny'n briodol.

Ym mis Mai 2021 lluniodd y Gweithgor ei adroddiad interim a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ac a gefnogwyd yn ddiweddarach gan y Cyngor llawn. Roedd yr adroddiad interim hwn gydag 16 o argymhellion yn caniatáu i'r grŵp grynhoi'r gwaith a gyflawnwyd hyd yma a'r argymhellion yr oedd o'r farn eu bod yn angenrheidiol i ddechrau ymgysylltu â thrigolion a'u dysgu am broses ddemocrataidd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n bwysig ein bod ni fel Cyngor yn gweithredu nawr i greu argraff ar ddarpar ymgeiswyr. Mae angen i'r Cyngor hefyd barhau â'r momentwm o ymgysylltu â'r pleidleiswyr ifainc trwy'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a gyflwynwyd ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan mai ein pobl ifainc yw llais y dyfodol.

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai, bu'r Aelodau'n ystyried ac yn cefnogi gwaith y gweithgor amrywiaeth a hefyd yn croesawu a gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas ag Amrywiaeth. Yn y cyfarfod hwn, cymeradwyodd y Cyngor y datganiad am ddod yn 'Gyngor Amrywiol ', un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i lofnodi a chefnogi datganiad o'r fath, a fydd yn cryfhau gwaith a rôl gweithgor y Gwasanaethau Democrataidd ymhellach.

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW)

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr IRPW gyda Chadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar 27 Hydref 2020 i drafod yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2021/22 a'r penderfyniadau arfaethedig mewn perthynas ag Aelodau Etholedig.

Cymerodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ran mewn trafodaethau am yr adroddiad gan gynnwys: yr amserlen daliadau; ad-daliad Cost Gofal a diogelwch personol Aelodau Etholedig. Anogodd yr IRPW Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i gymryd camau i annog a hwyluso mwy o ddefnydd o'r fframwaith cydnabyddiaeth fel nad yw'r Aelodau dan anfantais ariannol wrth gyflawni eu rolau.

Edrychodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar adroddiad drafft y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i sicrhau bod Aelodau'n cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol drafft ac i ganiatáu i'w sylwadau gael eu hystyried gan yr IRPW o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011. Roedd yr aelodau'n awyddus i dynnu sylw'r Aelodau at gost lwfansau gofal, yn ogystal â sylw darpar ymgeiswyr a allai sefyll yn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr IRPW ar gyfer 2021/22 ym mis Chwefror 2021 a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mai 2021 yn nodi'r penderfyniadau allweddol i'w cymeradwyo.

# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) (Y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021 ac roedd yn un o blith dau Fil yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i barhau i fynd rhagddo yn ystod pandemig Covid -19. Cafodd y Bil ei flaenoriaethu oherwydd yr amserlenni sy'n ofynnol i gyflwyno'r diwygiadau arfaethedig mewn perthynas ag etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

Felly roedd yn bwysig bod gofynion y Ddeddf a sut roedd y Cyngor yn bwriadu ymateb i'w gofynion yn cael eu trafod ym Mhwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd yn amlwg y byddai'r darn sylweddol hwn o ddeddfwriaeth yn newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu mewn ystod o feysydd, megis diwygiadau etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a rheoli cyflawniad, prosesau democrataidd a meithrin trefniadau gweithio cryfach gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

### MAE'R DDEDDF YN CYNNWYS DARPARIAETHAU AR GYFER:

- **Diwygio trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys:**
  - ➤ Ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifainc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithiol yng Nghymru,
  - ➤ Newidiadau i ddulliau cofrestru pleidleiswyr,
  - ➤ a galluogi'r prif gyngor i ddewis rhwng y systemau pleidleisio 'cyntaf i'r felin' neu 'bleidlais drosglwyddadwy sengl';
- Grym cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymunedol cymwys;
- Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol;
- Arweinyddiaeth prif gynghorau, gan gynnwys annog mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau'r adain weithredol a sefydlu swydd statudol y prif weithredwr;
- Cryfhau trefniadau a threfniadau craffu ar gyfer ymddygiad aelodau;
- Datblygu fframwaith a phwerau i hwyluso mecanweithiau gweithio rhanbarthol mwy cyson a chydlynol;
- System newydd ar gyfer monitro cyflawniad a llywodraethu yn seiliedig ar hunanasesu ac adolygu cymheiriaid, gan gynnwys cyfuno pwerau cymorth ac ymyrraeth Gweinidogion Cymru;
- Pwerau i hwyluso uno gwirfoddol y prif gynghorau ac ailstrwythuro o fewn prif ardal;
- Cyllid llywodraeth leol gan gynnwys ardrethi annomestig a threth y cyngor;
- **Darpariaethau amrywiol yn ymwneud â:**
  - ➤ Cefnogaeth i Gynghorau Cymuned
  - ➤ Trefniadau gweithredol
  - ➤ Statws Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
  - ➤ rhannu gwybodaeth rhwng rheolyddion,
  - ➤ diddymu arolygon cymunedol;,
  - ➤ awdurdodau tân ac achub,
  - ➤ Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a
  - ➤ Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae darpariaethau 'Dod i rym' y Ddeddf yn gymhleth, gyda rhai darpariaethau'n dod i rym o fewn dyddiau i'r Cydsyniad Brenhinol, eraill o fewn dau fis, a'r mwyafrif trwy offerynnau statudol Gweinidogol. Byddwn yn derbyn diweddariadau monitro rheolaidd ar y darpariaethau yn y Ddeddf i sicrhau ein bod fel Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â'r gofynion sydd o'n blaenau ac i gynnig cefnogaeth i'n cydweithwyr mewn Cynghorau Tref a Chymuned.

# Edrych i'r Dyfodol

Mae gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd nifer o brosiectau i'w cwblhau yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor, gyda'r angen i barhau â'i fomentwm o ran gwaith y gweithgor amrywiaeth a sicrhau bod yr argymhellion y cytunwyd arnynt hyd yma yn cael eu gweithredu. Yn ogystal â hyn, bydd yn bwysig bod yr argymhellion hyn yn darparu canlyniadau mesuradwy, y bydd y Pwyllgor yn eu monitro'n agos.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyflwyno'r trefniadau Gweddarlledu yn raddol yn ystod calendr cyfarfodydd y Cyngor a bydd yn ceisio cefnogi Aelodau a Swyddogion yn y rôl hon. Bydd yn bwysig bod dull cynyddrannol yn cael ei ddatblygu a'n bod yn bwrw ymlaen â'r trefniadau sydd fwyaf priodol i bob un o'r Pwyllgorau. Bydd angen ystyried opsiynau pleidleisio hybrid posibl a bydd angen i'r Pwyllgor ystyried treialu amryw opsiynau pleidleisio. Bydd hefyd yn bwysig ein bod yn sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan yn ein cyfarfodydd hybrid a'r dull gweddarlledu er mwyn hyrwyddo'r agenda democratiaeth.

Fel Pwyllgor byddwn yn treialu Porth yr Aelodau ac yn darparu adborth cadarnhaol i sicrhau bod y Porth yn dod yn lle y mae Aelodau'n mynd iddo i gael gafael ar wybodaeth, cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd a chodi problemau ar ran etholwyr. Gobeithio y bydd y 'siop un stop' hon yn cynorthwyo'r Aelodau wrth symud ymlaen.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n bwysig ein bod yn parhau i fonitro hyfforddiant Aelodau, nid yn unig ar gyfer y flwyddyn hon sydd i ddod ond ein bod ni fel Cyngor mewn sefyllfa dda i gefnogi darpar ymgeiswyr newydd yn y cyfnod yn arwain at yr Etholiadau Llywodraeth Leol. Mae angen i ni sicrhau ein bod wedi gwneud popeth sy'n bosibl i wneud gwaith unrhyw Aelod, ni waeth a ydyn nhw newydd eu hethol neu'n hirsefydlog, yn haws trwy roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt i'w harfogi i ymgymryd â rôl gadarnhaol a gwerth chweil.

# Atodiad - Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd - Cylch Gorchwyl

- Ymgymryd â swyddogaeth yr awdurdod lleol mewn perthynas â phenodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
- Adolygu darpariaeth o staff, swyddfeydd/cyfleusterau, ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol, er mwyn gofalu bod y cyfan yn ddigonol gyda golwg ar gyfrifoldebau'r swydd
- Cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor llawn ynglŷn â'r materion hyn;
- Mae modd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ei gwneud hi'n ofynnol i Aelodau a swyddogion y Cyngor fod yn bresennol ger ei fron i ateb cwestiynau. Mae dyletswydd ar yr Aelodau a'r Swyddogion dan sylw i gydymffurfio â hyn, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ateb unrhyw gwestiynau y byddai ganddynt hawl i'w gwrthod mewn achos llys yng Nghymru a Lloegr. Mae modd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wahodd pobl eraill i fynychu'r cyfarfodydd;
- Rhaid i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gwrdd o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion a nodir yn y cylch gorchwyl hwn;
- Rhaid i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd drafod unrhyw adroddiad neu argymhelliad a anfonir at ei Aelodau, ac unrhyw adroddiad sydd wedi'i lunio gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, o dan Adran 9 (1) (h) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 - a rhaid i hynny fod mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddim mwy na thri mis ar ôl i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn copïau o'r adroddiad;
- Ar ôl iddo lunio adroddiad neu wneud argymhelliad o dan Adran 11 (1) (c) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd drefnu bod copi ohono yn cael ei anfon at bob Aelod o'r Cyngor nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor;
- Bydd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu beth ddylid eu hystyried yn gyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol yn rhan o'i gyfrifoldeb i ddarparu cefnogaeth i'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau. Yn ychwanegol at y rhestr a nodwyd isod, mae modd i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ychwanegu rhai meysydd polisi yr ystyrir bod hyfforddiant yn hanfodol ar eu cyfer, megis cynllunio neu drwyddedu:
- Sesiwn Gynefino
- Rôl a swyddogaethau'r Adain Weithredol, y Cyngor a'i Swyddogion
- Trosolwg a Chraffu
- Technoleg Gwybodaeth
- Cod Ymddygiad
- Rôl Cynghorydd fel Aelod lleol
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Hyfforddiant ar Faterion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
- Bydd y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnwys mewn strategaeth ddatblygu gyhoeddedig; Defnyddir Siarter Cymorth a Datblygiad Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (“y Siarter”) at fel canllaw wrth ddyfarnu'r “Siarter Uwch”;
- Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnig bod y lefel briodol o gyllid ar gael ar gyfer talu am hyfforddiant allanol, os nad oes modd diwallu anghenion hyfforddi a datblygu rhesymol y Cyngor yn fewnol.

# Adroddiad Blynyddol 2020/21
# **Pwyllgor Archwilio**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

RHONDDA CYNON TAF

# 1. | CYFLWYNIAD

1.1 Er mwyn llywodraethu'n dda, rhaid i bob sefydliad fod â Phwyllgor Archwilio. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn ac mae'r **Cylch Gorchwyl** ar gyfer ei Bwyllgor Archwilio, fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, wedi'i bennu yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod, wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

1.2 Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn ddigynsail, gyda phandemig Covid-19 yn cael effaith eang ar ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, cymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn effro i hyn wrth lunio ei gynllyn gwaith ar gyfer y flwyddyn yn ei gyfarfod ar **5 Hydref 2020** roedd y pwyllgor hefyd yn effro i'r angen am oruchwyliaeth gadarn a chymesur ar lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheolaeth risg y Cyngor. Helpodd hyn i lywio dull gweithredu lle'r oedd y Pwyllgor Archwilio yn canolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd:

- Adolygu'r datganiadau ariannol drafft a monitro camau rheoli mewn ymateb i'r materion a godwyd gan gyrff archwilio allanol;
- Craffu ar Ddatganiad Llywodraeth Blynyddol y Cyngor, i ddangos sut mae gwaith llywodraethu yn helpu i gyflawni amcanion, a monitro camau rheoli yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella'r trefniadau ymhellach;
- Monitro swyddogaeth archwilio fewnol y Cyngor o ran goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, cyflawniad a phroffesiynoldeb, trwy adrodd yn rheolaidd ar gyflawniad ac aseiniadau archwilio terfynol;
- Trafod effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod;
- Trafod adroddiadau ac argymhellion archwilio allanol mewn perthynas â'r Cyngor; a
- Cefnogi datblygiad parhaus ac effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio.

1.3 Mae Adran 2 yr adroddiad yma'n crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2020/21 ac mae Adran 3 yn cyflwyno canlyniad yr hunanasesiad yn erbyn cyhoeddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 'Audit Committees - Practical Guidance for Local Authorities & Police 2018 Edition' ('Canllawiau CIPFA' o hyn ymlaen).

# 2. | GWAITH A GYFLAWNWYD YN 2020/21

2.1 Mae Canllawiau CIPFA yn nodi 'Swyddogaethau Craidd' y Pwyllgor Archwilio ynghyd â'r 'swyddogaethau ehangach' posibl.

2.2 Nodir y Swyddogaethau Craidd isod (penawdau cyfalaf a thestun 'bold') a chrynhoir y gwaith a gaiff ei wneud i gefnogi'r swyddogaethau craidd hyn o dan bob un.

**2.3 MAE DATGANIADAU SICRWYDD YR AWDURDOD, GAN GYNNWYS Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL, YN GOFNOD CYWIR O'R AMGYLCHEDD RISG AC UNRHYW GAMAU SY'N OFYNNOL I'W WELLA, AC MAE'N DANGOS SUT MAE LLYWODRAETHU YN HELPU I GYFLAWNI AMCANION YR AWDURDOD.**

2.3.1 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar **20 Gorffennaf 2020** a daeth yr Aelodau i'r casgliad bod 'Trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol, yn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd priodol ac yn dangos i'r cyhoedd ein bod ni'n defnyddio adnoddau mewn modd cywir wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol'. Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019/20 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, ac argymhellwyd y dylai Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon 2019/20 y Cyngor.

2.3.2 Yn ystod 2020/21 bu'r Pwyllgor yn monitro'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i weithredu'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20, a chafodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad yn ei gyfarfod ar **1 Chwefror 2021**.

2.3.3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Gorffennaf 2021 ac mae'n cadarnhau bod yr holl gynigion ar gyfer gwella y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019/20 wedi'u rhoi ar waith.

**2.4 MEWN PERTHYNAS Â SWYDDOGAETHAU ARCHWILIO MEWNOL YR AWDURDOD:**

- **GORUCHWYLIO EI ANNIBYNIAETH, GWRTHRYCHEDD, CYFLAWNIAD A PHROFFESIYNOLDEB**
- **CEFNOGI EFFEITHIOLRWYDD Y BROSES ARCHWILIO FEWNOL**
- **HYRWYDDO'R DEFNYDD EFFEITHIOL O WAITH ARCHWILIO MEWNOL O FEWN Y FFRAMWAITH SICRWYDD**

2.4.1 Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019/20, o 1 Ebrill 2019 cafodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ei drawsnewid yn Wasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, sydd dan arweiniad Cyngor Bro Morgannwg ac yn cynnwys pedwar awdurdod lleol: Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg.

2.4.2 Yn ystod pandemig Covid-19, roedd gofyn i Wasanaethau'r Cyngor addasu a gweithredu newidiadau i drefniadau darparu gwasanaethau yn gyflym er mwyn sicrhau darpariaeth barhaus o wasanaethau rheng flaen hanfodol yn ystod 2020/21. Defnyddiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddull tebyg, gan roi **Cynllun Archwilio Dros Dro yn Seiliedig ar Risg 2020/21** ar waith, a oedd yn ystyried: asesiad wedi'i ddiweddaru o risgiau allweddol; trefniadau darparu gwasanaeth diwygiedig ym mhob rhan o'r Cyngor; a chamau penodol a roddwyd ar waith gan y Cyngor o ran Covid-19, er enghraifft, gweinyddu ystod o gymorth ariannol i fusnesau a thaliadau prydau ysgol am ddim i deuluoedd cymwys. Mae nifer o'r rhain yn cael eu gweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun Archwilio Dros Dro yn Seiliedig ar Risg ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, a'i gymeradwyo, ar **20 Gorffennaf 2020** ac amlinellodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai angen i'r cynllun fod yn hyblyg i ymateb i amgylchiadau a digwyddiadau newidiol posibl (e.e .'tonnau' y coronafeirws yn y dyfodol, y gallu i gael gafael ar staff a thystiolaeth i sicrhau bod rheolaethau mewnol ar waith, absenoldebau staff sy'n gysylltiedig â Covid-19).

2.4.3 Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariadau am gyflawniad y gwasanaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys sut roedd y Gwasanaeth yn addasu ac yn gwneud gwaith archwilio o bell, a manylion yr holl aseiniadau archwilio terfynol; roedd yr wybodaeth yma'n fodd o alluogi'r Aelodau i drafod effeithiolrwydd y gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21.

2.4.4 Rhan allweddol o rôl y Pwyllgor Archwilio yw helpu Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor i fod yn annibynnol, asesu a oes ganddo adnoddau digonol ar gael iddo a monitro cyflawniad ac ansawdd y gwaith a ddarperir trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y gofyniad yma drwy ei Siarter Archwilio Mewnol[1], a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'i gymeradwyo ar **5 Hydref 2020**. Roedd hyn yn gyfle i'r Pwyllgor i asesu annibyniaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

## 2.5 MONITRO EFFEITHIOLRWYDD YR AMGYLCHEDD RHEOLI, GAN GYNNWYS TREFNIADAU AR GYFER SICRHAU GWERTH AM ARIAN, CEFNOGI SAFONAU A MOESEG AC AR GYFER RHEOLI PA MOR AGORED YW'R AWDURDOD I RISGIAU TWYLL A LLYGREDD

2.5.1 Cafodd adroddiadau cryno o aseiniadau archwilio terfynol eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu'r Pwyllgor i ddod i farn ar yr amgylchedd rheoli cyffredinol sydd ar waith yn y Cyngor yn 2020/21. Caiff canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol eu dwyn ynghyd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar ffurf **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol**, ac ar gyfer 2020/21 daw'r Adroddiad Blynyddol i'r casgliad canlynol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar 12 Gorffennaf 2021):

*Gan ystyried canlyniadau'r adolygiadau archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod 2020/21, yr argymhellion a wnaed a ffynonellau sicrwydd eraill, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor ar gyfer 2020/21 yw ei fod '**Yn effeithiol gyda nifer fach o feysydd i'w gwella wedi'u nodi**'. Ni chafodd unrhyw faterion rheoli trawsbynciol sylweddol a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor eu nodi. Mae'r gwendidau a nodwyd yn ymwneud â gwasanaethau penodol.*

---

*[1] Siarter Archwilio Mewnol - dogfen ffurfiol sy'n nodi sefyllfa'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o fewn y sefydliad, gan gynnwys natur perthynas adrodd swyddogaethol y Pennaeth Archwilio Mewnol â'r Bwrdd (h.y. Pwyllgor Archwilio'r Cyngor).*

2.5.2 Yn gyson â'r casgliad uchod:

- Ni nodwyd unrhyw feysydd yn ystod y flwyddyn lle roedd safon y trefniadau rheolaeth/llywodraethu mewnol yn annigonol ac angen eu gwella; a
- Nid yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn am unrhyw adolygiadau dilynol i'w cynnwys yng Nghynllun Archwilio Blynyddol 2021/22.

2.5.3 O ran risgiau twyll a llygredd:

- Ar 2 Tachwedd 2020 yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion drosolwg o'r Fenter Twyll Genedlaethol, ynghyd â diweddariad ar y gwaith a gyflawnwyd gan y Garfan Twyll Corfforaethol. Rhoddodd hyn sicrwydd am drefniadau'r Cyngor i fynd i'r afael â thwyll posibl ac roedd yn cwmpasu'r gwaith rheoli mewnol sy'n cefnogi'r maes. Bydd yr adroddiad Gwrth-dwyll ar gyfer 2020/21 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Gorffennaf 2021.
- Yn y cyfarfod ar **26 Ebrill 2021** cafodd Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban 2020/21 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Y farn gyffredinol, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban 2020/21, oedd 'mae trefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor yn briodol'.

## 2.6 YSTYRIR EFFEITHIOLRWYDD TREFNIADAU RHEOLI RISG YR AWDURDOD A'R AMGYLCHEDD RHEOLI, GAN ADOLYGU PROFFIL RISG Y SEFYDLIAD A CHAEL SICRWYDD BOD CAMAU'N CAEL EU CYMRYD AR FATERION SY'N GYSYLLTIEDIG Â RISG, GAN GYNNWYS PARTNERIAETHAU A CHYDWEITHREDIADAU Â SEFYDLIADAU ERAILL.

2.6.1 Roedd y cynllun gwaith ar gyfer 2020/21 yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol a pharhaodd i ehangu'r cwmpas llywodraethu a rheoli risg trwy:

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol - parhau i gyflwyno diweddariadau cynnydd yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â chynigion ar gyfer gwella.
- Cafodd rhaglen o ddiweddariadau o ran y Gofrestr Risg Strategol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, er mwyn gwella dealltwriaeth Aelodau'r Pwyllgor o'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Cyngor a'r trefniadau sydd ar waith i reoli/lliniaru risgiau o'r fath. Yn ystod y flwyddyn, cafodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio 2 ddiweddariad: Cyflawniad Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (1 Chwefror 2021) a Chynllunio'r Gweithlu (22 Mawrth 2021). Bydd diweddariadau pellach yn cael eu cynnwyd yng nghynllun gwaith 2021/22 yn rhan o waith y Pwyllgor o ran deall proffil risgiau'r Cyngor a'i adolygu.
- Cafodd Cynllun Dysgu a Datblygu ei lunio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar **1 Chwefror 2021**, yn dilyn holiadur asesu anghenion hyfforddi ar-lein a gwblhawyd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adborth wedi nodi bod rheoli risg yn faes sydd angen cefnogaeth barhaus ac o'r herwydd mae wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Dysgu a Datblygu'r Pwyllgor ar gyfer 2021/22.

**2.7 ADOLYGU'R DATGANIADAU ARIANNOL, BARN ARCHWILYDD ALLANOL A'R ADRODDIADAU I AELODAU, YN OGYSTAL Â MONITRO CAMAU RHEOLI MEWN YMATEB I'R MATERION SY'N DEILLIO O WAITH ARCHWILIO ALLANOL**

2.7.1 Yn y cyfarfod ar **20 Gorffennaf 2020**, cyflwynodd y Pennaeth Materion Cyllid - Addysg ac Adroddiadau Ariannol Ddatganiadau Cyfrif drafft ardystiedig 2019/20 ar gyfer y Cyngor a Chronfa Bensiwn RhCT[2]. Ar 5Hydref 2020, rhoddodd Archwilio Cymru ddiweddariad ar lafar ar gynnydd yr archwiliad o'r Datganiadau o Gyfrif drafft ar gyfer 2019/20 a chlywodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw feysydd pryder sylweddol wedi codi y mae angen i'r Pwyllgor eu hystyried mewn perthynas ag archwilio'r Datganiadau o Gyfrif drafft.

2.7.2 Yn dilyn hynny, cafodd y Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd gan y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn ar gyfer 2019/20, eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn ar **25 Tachwedd 2020**, ar ôl cwblhau'r broses archwilio allanol, gyda'r ddwy gyfres o Gyfrifon yn cael barn ddiamod gan Archwilio Cymru (h.y. dim problemau amlwg). Yn y cyfarfod ar **1 Chwefror 2021** cyflwynodd Archwilio Cymru yr 'Adendwm Adroddiad Archwilio Cyfrifon' a nododd ddau argymhelliad sy'n deillio o broses archwilio 2019/20. Derbyniwyd y ddau argymhelliad gan y Cyngor a chytunwyd i'r argymhellion gael eu rhoi ar waith erbyn 1 Ebrill 2021.

**2.8 YSTYRIED ADRODDIADAU AC ARGYMHELLION ASIANTAETHAU ARCHWILIO AC AROLYGU ALLANOL A'U GOBLYGIADAU AR GYFER LLYWODRAETHU A MATERION RHEOLI RISG**

2.8.1 Ar **26 Ebrill 2021**, cafwyd diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yma gan y Cyngor i weithredu cynigion ar gyfer gwella a adroddwyd gan Archwilio Cymru yn ei Grynodeb Archwilio Blynyddol 2020 (cafodd Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020 ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2021). Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio o'r diweddariad cynnydd, penderfynodd y Pwyllgor fod dim materion o natur llywodraethu, rheolaeth fewnol neu reoli risg sy'n gofyn am weithredu neu sylw pellach gan y Pwyllgor Archwilio nac unrhyw faterion sydd angen eu cyfeirio at bwyllgorau craffu'r Cyngor.

2.8.2 O ran swyddogaethau ehangach posibl y pwyllgor archwilio, fel y nodir yng Nghanllaw CIPFA, mae hyn yn cynnwys ystyried materion llywodraethu, risg neu reolaeth ar gais pwyllgorau eraill.

2.8.3 Yn y cyfarfod ar 5 Hydref 2020, yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o aseiniadau archwilio terfynol, gofynnwyd am wybodaeth bellach ar feysydd Swyddi Gwag Llywodraethwyr, Diogelu a Phresenoldeb Disgyblion. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y Cyngor ddiweddariad i'r Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2020 ac ar ôl ystyried y wybodaeth, cyfeiriodd y Pwyllgor Archwilio fater presenoldeb disgyblion a myfyrwyr a 6ed dosbarth i'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc, i'w adolygu ymhellach. Nodir y bydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc yn darparu adborth i'r Pwyllgor Archwilio yn 2021/22.

---

*[2] Ar 20 Gorffennaf 2020 bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried Datganiad o Gyfrifon drafft ardystiedig 2019/20 ar gyfer Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a Datganiad Blynyddol ddrafft ardystiedig 2019/20 Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed*

# 3. HUNANASESIAD YN ERBYN CANLLAWIAU YMARFEROL CIPFA AR GYFER AWDURDODAU LLEOL A'R HEDDLU - RHIFYN 2018

3.1 Mae'r rhestr wirio hunanasesu a gynhwysir yng Nghanllaw CIPFA wedi'i chwblhau ac mae wedi'i seilio ar drefniadau'r Pwyllgor Archwilio a oedd ar waith yn ystod 2020/21 yn ogystal ag adolygiad o'r wybodaeth a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio dros y cyfnod hwn. Nodir yr hunanasesiad yn Atodiad 1B ac mae hefyd yn cynnwys canlyniadau hunanasesiadau blynyddoedd blaenorol er gwybodaeth.

3.2 Mae proses hunanasesu 2020/21 yn dangos bod Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da i weithredu'r cynigion ar gyfer gwella yr adroddwyd arnynt yn 2019/20 ac mae hefyd wedi nodi nifer fach o gynigion newydd ar gyfer gwella i atgyfnerthu'r trefniadau presennol sydd ar waith ymhellach.

3.3 Mae tabl 1 yn nodi diweddariad ar y cynnydd a wnaed i weithredu cynigion ar gyfer gwella a adroddwyd yn 2019/20, yn ogystal â chynigion newydd ar gyfer gwella.

<u>Tabl 1 - Diweddariad Cynnydd Hunanasesiad 2019/20 2019 a Chynigion Hunanasesu 2020/21 i'w Gwella</u>

| | Cwestiynau Arfer Da | Hunanasesiad 2019/20 | | | | Hunanasesiad 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** | **Ymateb a Chynnig ar gyfer Gwella** | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** | **Cynnydd a wnaed ers Cynnig ar gyfer Gwella 2019/20 a 2020/21** |
| 12b. | **AELODAETH A CHEFNOGAETH**<br><br>A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad pwyllgor archwilio effeithiol?<br><br>Ystyriwch y canlynol:<br><br>• cymysgedd briodol o wybodaeth a sgiliau ymhlith yr aelodaeth | | ✓ | | Mae'r gwaith dysgu a'r datblygu wedi parhau yn ystod 2019/20 yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor a'r cynllun gwaith cytunedig ar gyfer y flwyddyn. Mae gan Aelodau ystod eang o wybodaeth a phrofiad yn gyffredinol (e.e .Aelodau penodol sydd â chyfrifoldebau pwyllgor craffu), sydd wedi ategu gwaith y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.<br><br>Dechreuwyd ar y gwaith hefyd i lunio dull i asesu gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor, fel y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod ar 3 Chwefror 2020, a bydd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor yn 2020/21. Wedi hynny, bydd y broses asesu yn cychwyn ac yn cael ei dwyn ymlaen ochr yn ochr â Phrosiect Swyddfa Archwilio Cymru - Cefnogaeth a Datblygiad Pwyllgor Archwilio Rhondda Cynon Taf.<br><br>Cynigion er Gwella<br><br>• Cwblhau'r asesiad sgiliau ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio; a<br><br>• Cytuno ar raglen ddysgu a datblygu ar ei newydd wedd (wedi'i llywio gan yr ymarfer asesu sgiliau) a'i hymgorffori yng nghynllun gwaith blynyddol y Pwyllgor Archwilio. | ✓<br><br>✓ | | | Diweddariad 2019/20<br>• Asesiad sgiliau o Aelodau'r Pwyllgor Archwilio - WEDI'I GWBLHAU ac fe'i adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Chwefror 2021.<br><br>• Cytuno ar raglen ddysgu a datblygu ar ei newydd wedd - WEDI'I GWBLHAU a chytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio ar 22 Mawrth 2021 (bydd yn cael ei hymgorffori yng nghynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22.)<br><br>Cynnig er Gwella NEWYDD (2020/21)<br><br>• Yn rhan o gefnogaeth a datblygiad parhaus y Pwyllgor Archwilio, dylid diweddaru Cynllun Gwaith a Chynllun Dysgu a Datblygu 2021/22 i adlewyrchu'r gwaith sydd ei angen i baratoi ar gyfer gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (er enghraifft, cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag asesu cyflawniad a thrin cwynion). |

| Cwestiynau Arfer Da | | Hunanasesiad 2019/20 | | | | Hunanasesiad 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Do | Yn rhannol | Naddo | Ymateb a Chynnig ar gyfer Gwella | Do | Yn rhannol | Naddo | Cynnydd a wnaed ers Cynnig ar gyfer Gwella 2019/20 a 2020/21 |
| 16 | **AELODAETH A CHEFNOGAETH**<br><br>A yw aelodaeth y pwyllgor wedi'i asesu yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd, ac a ganfuwyd ei fod yn foddhaol? | | | ✓ | Fel y nodwyd ar gyfer 12b uchod.<br><br>Cynigion er Gwella<br><br>• Cwblhau'r asesiad sgiliau ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio; a<br><br>• Cytuno ar raglen ddysgu a datblygu ar ei newydd wedd (wedi'i llywio gan yr ymarfer asesu sgiliau) a'i hymgorffori yng nghynllun gwaith blynyddol y Pwyllgor Archwilio. | ✓<br><br>✓ | | | Wedi'i gwblhau - gweler 12b 'Diweddariad 2019/20' am fanylion am y camau a gymerwyd. |
| 19 | **AELODAETH A CHEFNOGAETH**<br><br>Cwestiwn arfer da<br>A yw'r Pwyllgor wedi cael adborth ar ei gyflawniad gan y rhai sy'n rhyngweithio â'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith? | Ddim yn Berthnasol | | | | | | ✓ | Oherwydd yr angen i flaenoriaethu trefniadau adrodd yn ystod pandemig Covid-19, ni chafodd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019/20 ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, nodir:<br><br>• Fel rheol byddai Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio yn cael ei adrodd i'r Cyngor llawn (h.y. cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2018/19 i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2019); a<br>• Cyhoeddwyd, adolygwyd a chytunwyd ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2019/20 gan y Pwyllgor |

| Cwestiynau Arfer Da | | Hunanasesiad 2019/20 | | | | Hunanasesiad 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** | **Ymateb a Chynnig ar gyfer Gwella** | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** | **Cynnydd a wnaed ers Cynnig ar gyfer Gwella 2019/20 a 2020/21** |
| | | | | | | | | | Archwilio yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2020.<br><br><u>Cynnig er Gwella NEWYDD (2020/21)</u><br><br>• Dylid rhoi gwybod i'r Cyngor llawn am fersiwn gytûn o Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Pwyllgor Archwilio er mwyn galluogi rhoi adborth ar gyflawniad y Pwyllgor Archwilio. |
| 21 | **<u>EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR</u>**<br><br>A yw'r pwyllgor yn ymgysylltu ag ystod eang o arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys trafod canfyddiadau archwilio, risgiau a chynlluniau gweithredu gyda'r swyddogion cyfrifol? | | | | Dd/B | | ✔ | | <u>Cynnig er Gwella NEWYDD (2020/21)</u><br><br>• Adroddir diweddariadau cynnydd mewn perthynas ag argymhellion Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol. Argymhellir bod diweddariadau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cyngor i weithredu argymhellion Archwilio Cymru yn cael eu hamserlennu yng Nghynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2021/22, ar gyfnodau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn (neu'n unol â gofynion penodol). |
| 23 | **<u>EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR</u>** | | ✔ | | Mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â gwaith penodol, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i ychwanegu gwerth at weithrediadau'r Cyngor - er enghraifft: | | | | <u>Diweddariad 2019/20</u><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i gymryd camau i wella effaith ei waith, er |

| Cwestiynau Arfer Da | | Hunanasesiad 2019/20 | | | | Hunanasesiad 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Do | Yn rhannol | Naddo | Ymateb a Chynnig ar gyfer Gwella | Do | Yn rhannol | Naddo | Cynnydd a wnaed ers Cynnig ar gyfer Gwella 2019/20 a 2020/21 |
| | Cwestiwn arfer da<br>A yw'r pwyllgor wedi ystyried a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad a gwerthuso sut mae'n cyflawni hynny? | | | | • Adolygu a chymeradwyo cod llywodraethu corfforaethol lleol;<br>• Adolygu a herio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; a<br>• Monitro gweithrediad argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru (o safbwynt rheolaeth fewnol).<br><br>Cynnig er Gwella<br><br>• Gan ddefnyddio un maes o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, treialu dull o werthuso effaith ei waith (gyda'r nod o ddysgu gwersi a datblygu dull i werthuso meysydd eraill o waith y Pwyllgor). | | ✓ | | enghraifft, cynnal asesiad o anghenion hyfforddi a chytuno ar gynllun dysgu a datblygu, a chyfeirio materion penodol i'w hadolygu'n fwy manwl at bwyllgorau Craffu'r Cyngor.<br><br>Bydd y maes yma'n destun gwaith parhaus yn rhan o ddatblygiad y Pwyllgor Archwilio o'r broses hunanasesu ar gyfer 2021/22. |

3.4 Unwaith y caiff fersiwn o Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Pwyllgor Archwilio ei gytuno, bydd y cynigion ar gyfer gwella (yn unol â Thabl 1) yn sail i gynllun gweithredu a fydd yn cael ei arwain a'i reoli gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2021/22 . Bydd y cynllun gweithredu yn ddogfen fyw i sicrhau bod unrhyw newidiadau perthnasol yn cael eu hystyried, er enghraifft, wrth ddarparu gwasanaethau, yn ogystal â risgiau strategol a chyfrifoldebau parhaus y Pwyllgor Archwilio.

# 4. | CASGLIAD

4.1 Yn ystod 2020/21 mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wedi adolygu a herio ystod eang o feysydd pwnc, gan gynnwys gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol.

4.2 Yn seiliedig ar adolygiad o gwmpas gwaith a goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn, fel y nodir yn Adran 2, ystyrir bod y Pwyllgor wedi cyflawni ei Gynllun Gwaith a'i gyfrifoldebau yn unol â'i Gylch Gorchwyl.

4.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn nodi, yn Adran 3/Atodiad 1B, ganlyniadau'r hunanasesiad a gynhaliwyd yn erbyn y rhestr wirio a nodwyd yng Nghanllaw CIPFA. Mae canlyniad y broses hon yn dangos bod Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da i weithredu'r cynigion ar gyfer gwella yr adroddwyd arnynt yn 2019/20 ac mae hefyd wedi nodi nifer fach o gynigion newydd ar gyfer gwella i atgyfnerthu'r trefniadau presennol sydd ar waith ymhellach.

# Atodiad 1A

**CYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO O RAN MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 A DEDDF LLYWODRAETHU AC ETHOLIADAU LLEOL (CYMRU) 2021**

**<u>Pennod 2, adran 81 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011</u>**

***Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio***

4.0 Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor (“Pwyllgor Archwilio”) i—

a) adolygu a herio materion ariannol yr Awdurdod;
b) llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr Awdurdod;
c) adolygu a chyrchu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod;
d) llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
e) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod;
f) adolygu'r datganiadau ariannol sy'n cael eu paratoi gan yr Awdurdod.

5.0 Caiff awdurdod lleol roi unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn addas i'w Bwyllgor Archwilio.

6.0 Mater i'r Pwyllgor Archwilio yw penderfynu sut i arfer ei swyddogaethau.

**<u>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021</u>**

***Trefniadau Cyflawniad y Cyngor***

(i) Trafod adroddiad Hunanasesu Cyflawniad Blynyddol drafft y Cyngor ac os bernir ei fod yn angenrheidiol, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cyngor. .
(ii) Derbyn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol terfynol y Cyngor mewn perthynas â blwyddyn ariannol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno.
(iii) O leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol i'r Cyngor, trafod adroddiad Asesiad Cyflawniad Panel annibynnol ar sut mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion o ran cyflawniad.
(iv) Derbyn ac adolygu ymateb drafft y Cyngor i adroddiad Asesiad Cyflawniad annibynnol y Panel ac, os bernir bod angen, mae modd gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiadau a wnaed yn yr ymateb drafft i'r Cyngor.

***Delio â Chwynion***

(i) Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol.
(ii) Llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**Atodiad 1B**

## Hunanasesiad o arfer da

| Cwestiynau arfer da | | Hunanasesiad 2018/19 | | | Hunanasesiad 2019/20 | | | Hunanasesiad 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Do | Yn rhannol | Naddo | Do | Yn rhannol | Naddo | Do | Yn rhannol | Naddo |
| **Pwrpas pwyllgor archwilio a llywodraethu** | | | | | | | | | | |
| 1 | A oes gan yr awdurdod bwyllgor archwilio pwrpasol? | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 2 | A yw'r pwyllgor archwilio yn adrodd i'r Cyngor Llawn yn uniongyrchol? | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 3 | A yw'r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â Datganiad Sefyllfa CIPFA? | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 4 | A yw rôl a phwrpas y pwyllgor archwilio yn cael eu deall a'u derbyn ar draws yr awdurdod? | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 5 | A yw'r pwyllgor archwilio yn darparu cefnogaeth i'r awdurdod i fodloni gofynion llywodraethu da? | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| 6 | A yw'r trefniadau i ddwyn y pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn foddhaol? | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | |
| **Swyddogaethau'r pwyllgor** | | | | | | | | | | |
| 7 | A yw cylch gorchwyl y pwyllgor yn mynd i'r afael yn benodol â'r holl feysydd craidd a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA?<br>• llywodraethu da<br>• fframwaith sicrwydd, gan gynnwys partneriaethau a threfniadau cydweithredu<br>• archwilio mewnol<br>• archwilio allanol<br>• adroddiadau ariannol<br>• rheoli risg | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | |

| Cwestiynau arfer da | | Hunanasesiad 2018/19 | | | Hunanasesiad 2019/20 | | | Hunanasesiad 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Do | Yn rhannol | Naddo | Do | Yn rhannol | Naddo | Do | Yn rhannol | Naddo |
| | • gwerth am arian neu'r gwerth gorau<br>• gwrth-dwyll a llygredd<br>• cefnogi'r fframwaith moesegol | | | | | | | | | |
| 8 | A gynhelir gwerthusiad blynyddol i asesu a yw'r pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl a bod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i'r holl feysydd craidd? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 9 | A yw'r pwyllgor archwilio wedi ystyried y meysydd ehangach a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA ac a fyddai'n briodol i'r pwyllgor ymgymryd â hwy? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 10 | Lle gwelwyd bod cwmpas maesydd craidd yn gyfyngedig, a oes cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn? | Dd/B | | | Dd/B | | | Dd/B | | |
| 11 | A yw'r pwyllgor wedi cynnal ei rôl ymgynghorol trwy beidio â chymryd unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau nad ydynt yn unol â'i bwrpas craidd? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| **Aelodaeth a chefnogaeth** | | | | | | | | | | |
| 12 | A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad pwyllgor archwilio effeithiol?<br><br>Ystyriwch y canlynol: | | | | | | | | | |
| a. | gwahanu oddi wrth y weithrediaeth | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| b. | cymysgedd briodol o wybodaeth a sgiliau ymhlith yr aelodaeth | | ✔ | | | ✔ | | ✔ | | |
| c. | maint pwyllgor nad yw'n anhylaw | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| ch. | rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys o leiaf un aelod annibynnol (lle nad yw eisoes yn ofyniad gorfodol) | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 13 | A yw aelodau annibynnol a benodwyd i'r pwyllgor wedi'u recriwtio | ✔ | | | ✔ | | | | | |

| Cwestiynau arfer da | | Hunanasesiad 2018/19 | | | Hunanasesiad 2019/20 | | | Hunanasesiad 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** | **Do** | **Yn rhannol** | **Naddo** |
| | mewn ffordd agored a thryloyw a'u cymeradwyo gan y Cyngor Llawn? | | | | | | | ✔ | | |
| 14 | A oes gan gadeirydd y pwyllgor wybodaeth a sgiliau priodol? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 15 | A oes trefniadau ar waith i gefnogi'r pwyllgor gyda sesiynau briffio a hyfforddiant? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 16 | A yw aelodaeth y pwyllgor wedi'i asesu yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd a chanfuwyd ei fod yn foddhaol? | | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | |
| 17 | A oes gan y pwyllgor gysylltiadau gwaith da â phobl a sefydliadau allweddol, gan gynnwys archwilio allanol, archwilio mewnol a'r Prif Swyddog Cyllid? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 18 | A ddarperir cefnogaeth ysgrifenyddol a gweinyddol ddigonol i'r pwyllgor? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| **Effeithiolrwydd y pwyllgor** | | | | | | | | | | |
| 19 | A yw'r pwyllgor wedi cael adborth ar ei berfformiad gan y rhai sy'n rhyngweithio â'r pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith? | | | ✔ | ✔ | | | | | ✔ |
| 20 | A yw cyfarfodydd yn effeithiol gyda lefel dda o drafod ac ymgysylltu gan yr holl aelodau? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 21 | A yw'r pwyllgor yn ymgysylltu ag ystod eang o arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys trafod canfyddiadau archwilio, risgiau a chynlluniau gweithredu gyda'r swyddogion cyfrifol? | ✔ | | | ✔ | | | | ✔ | |
| 22 | A yw'r pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella llywodraethu, risg a rheolaeth ac a weithredir ar y rhain? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 23 | A yw'r pwyllgor wedi ystyried a yw'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad a gwerthuso sut mae'n cyflawni hynny? | | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | |

| Cwestiynau arfer da | | Hunanasesiad 2018/19 | | | Hunanasesiad 2019/20 | | | Hunanasesiad 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Do | Yn rhannol | Naddo | Do | Yn rhannol | Naddo | Do | Yn rhannol | Naddo |
| 24 | A oes gan y pwyllgor gynllun gweithredu i wella unrhyw feysydd lle mae gwendid? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |
| 25 | A yw'r pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i gefnogi'i gyflawniad ac egluro'i waith? | ✔ | | | ✔ | | | ✔ | | |

tudalen wag